Canllaw Gwaith Celf AAA

Nid oes angen i chi fod yn artist proffesiynol i helpu plant i greu gwaith celf uchelgeisiol ac ystyrlon - Eich rôl yw darparu amgylchedd tawel a chefnogol lle gall chwilfrydedd, arbrofi a mynegiant unigol ffynnu. Addaswch ddeunyddiau, cyfarwyddiadau a chefnogaeth i ddiwallu anghenion unigol, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu creu gwaith celf y maent yn falch ohono.

Deunyddiau

Papur – Rhaid i'r gwaith celf fod yn **A4**. Defnyddiwch bapur arlunio trwm lle bo modd, yn enwedig ar gyfer rhwbio allan neu gyfryngau gwlyb. Papur dyfrlliw sydd orau ar gyfer paent gwlyb iawn.

Pensiliau – Argymhellir pensiliau 2B neu 4B ar gyfer marciau tywyllach y gellir eu dileu o hyd.

Deunyddiau lliwio – Cynigiwch ddewis o baent acrylig, dyfrlliw, pastelau olew, creonau neu baent parod. Gadewch i ddisgyblion brofi deunyddiau ar bapur bras yn gyntaf. Dewiswch gyfryngau beiddgar a bywiog ar gyfer arddangosfa; **osgowch binnau ffelt**. Darparwch gyfleoedd i ymarfer cymysgu lliwiau, gan gynnwys amrywiaeth o arlliwiau croen a gwallt.

Drychau/ffotograffau – Gall drychau bach neu ffotograffau wedi'u hargraffu gefnogi hunanbortreadu. Dilynwch ddewisiadau unigol y disgyblion a darparwch ddewisiadau eraill lle gall drychau neu ffotograffau achosi anghysur.

Brwshys – Defnyddiwch frwshys bach sy'n rhoi rheolaeth ac yn galluogi disgyblion i ychwanegu manylion heb ormod o baent.

Deunyddiau eraill – Rwberi, hogwyr, papur bras, byrddau gwyn/cliplau, potiau dŵr, bibiau a dillad paentio. Ystyriwch offer addasol, gafaelion mwy neu gefnogaeth gorfforol ychwanegol lle bo angen.

Cefnogi Disgyblion AAA

Paratoi a strwythuro

Paratowch ddeunyddiau cyn pob sesiwn i wneud y gorau o'r amser creadigol. Rhowch gyfarwyddiadau clir a hylaw, a rhannwch dasgau yn gamau llai lle bo hynny'n ddefnyddiol. Defnyddiwch enghreifftiau

gweledol, arddangosiadau, amseryddion neu awgrymiadau ysgrifenedig yn ôl anghenion y disgyblion. Caniatewch amser prosesu ychwanegol a ffyrdd amgen o gymryd rhan.



Cefnogi mynegiant unigol

Cynigiwch ddewisiadau gwirioneddol heb lethu disgyblion. Anogwch nhw i archwilio deunyddiau a datblygu eu syniadau eu hunain yn hytrach na disgwyl i bawb weithio yn yr un ffordd. Peidiwch â rhagdybio beth mae disgybl yn ei arlunio na beth mae'n ei olygu.

Byddwch yn ystyriol gyda symbolau

Nod y prosiect yw adeiladu pontydd ar draws gwahaniaeth. Anogwch ddisgyblion i ddefnyddio symbolau'n feddylgar ac i **osgoi baneri neu ddelweddau a allai eithrio neu dargedu eraill**. Helpwch ddisgyblion i edrych y tu hwnt i gymeriadau poblogaidd, gemau neu dueddiadau, ac i archwilio profiadau, diddordebau a rhinweddau personol sy'n eu gwneud yn unigryw.

Dathlu gwahaniaeth

Anogwch ddisgyblion i gynrychioli eu hunain ac eraill gyda gofal a pharch. Cefnogwch arsylwi manwl heb orliwio na lleihau nodweddion corfforol. Darparwch ddeunyddiau sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o arlliwiau croen. Byddwch yn sensitif wrth drafod nodweddion gwarchodedig a pheidiwch byth â gwneud i ddisgybl unigol deimlo'n anghyffurddus oherwydd sylw gormodol. Ymatebwch i sylwadau am wahaniaeth yn dawel a chreu cyfleoedd priodol i fyfyrio.

Cynigiwch chwilfrydedd, nid canmoliaeth

Yn hytrach na barnu gwaith fel "da" neu "wael", gofynnwch gwestiynau agored fel *"Beth wnaeth i ti ddewis y lliw hwn?"* Trafodwch y gwaith celf a'r broses greadigol, gan gefnogi disgyblion i gyfathrebu eu syniadau mewn gwahanol ffyrdd.

Cymerwch amser

Anogwch ddisgyblion i aros, arsylwi a chynllunio cyn defnyddio deunyddiau. Modelwch ddechrau'n ysgafn gyda phensil ac adeiladu'r ddelwedd yn raddol mewn haenau. Caniatewch i ddisgyblion weithio ar gyflymder priodol a darparwch seibiannau neu addasiadau synhwyraidd pan fo angen.

Modelwch y broses

Crëwch ochr yn ochr â'r disgyblion a dangoswch fod arbrofi a chamgymeriadau yn rhan o greu celf. Rhannwch eich darganfyddiadau a beth y gallech ei newid y tro nesaf. Gall dangos eich bod chithau hefyd yn dysgu helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel i arbrofi a dal ati.

Cyfeiriwch at y Trosolwg o'r Prosiect am ganllawiau cyflwyno cais